



Branwen – CA5

Tasg 4 – Ymson / Sgwrs

Yn Eisteddfod Genedlaethol 2012, enillodd Gwyneth Lewis y goron am gerdd yn seiliedig ar ddyddiau olaf y saith marchog a Bendigeidfran yn Ynys Gwales. Mae elfen o hiwmor yn y gerdd, e.e. yn adran 9.

Cwmni

Daeth y dynion i gysuro Brân. Yr ail

Ddrws: siarad.

'...Ond dyna ni, yn y pen draw

Pobol sy'n bwysig,' medd Pryderi

Y llofrudd.

'Bûm lamhidydd, bûm forfran ...'

Felly Daliesin. 'Fachgen,' atebodd Brân,

'Fe smygest ti ormod o wymon.'

Glifiau Ail Taran: 'Wrth gwrs, bydd dy grefydd

Yn gysur iti. I anffyddiwr fel fi

Dyw atgyfodiad ddim yn opsiwn.' Brân:

'Diolch yn fawr, ond rwy'n dal yn fyw.'

'Ddaeth Heilyn fab Gwyn ddim i weld y pen

Ond roedd Ynog yn ddigon o ddyn i ddweud dim byd

Ond cadw cwmni, gadael i'r môr

Gymeradwyo pob anadl, pob eiliad.



'Mae 'nghefn i'n gwynegu,' cwynodd Griddieu

Fab Muriel. Brân: 'Rwyt ti'n lwcus

Fod gennyt ti gorff. Cer o 'ngolwg.'

Manawydan. 'Wyt ti'n meddwl _?'

Brân: 'Nagw.' 'Was, 'ti'n fyr

Dy dymer!' Gadawodd.

Hughes, J. E. (2012) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Morgannwg*, Llys yr Eisteddfod tt. 66-67.

Darllenwch o: 'Ac ar ddiwedd y seithfed flwyddyn ...' ar dudalen 43 hyd at 'fe alwyd yr amser yma yn "Gwledd y Pen Urddol"' ar dudalen 44 o waith Gwyn Thomas.

Dychmygwch y saith marchog a phen Bendigeidfran ar Ynys Gwales yn ymddiddan â'i gilydd.

Dyma nhw'r saith:

Pryderi; Manawydan; Glifiau ail Taran; Taliesin; Ynawg; Gruddiau fab Muriel; Heilyn fab Gwyn Hen

Cofiwch mai Heilyn fab Gwyn Hen agorodd y drws a waharddwyd, sef y drws i Aber Henfelen.



Naill ai:

- Lluniwch sgwrs rhwng y saith marchog a Phen Bendigeidfran.
Efallai yr hoffech chi ddefnyddio hiwmor a'u clywed yn tynnu coes (wps, does gan Bendigeidfran ddim coesau) ...

Neu:

- ysgrifennwch ymson Heilyn.
Ceisiwch ddychmygu'r tyndra mae'n ei deimlo rhwng y demtasiwn i agor y drws a'r gwybod nad oes ganddo hawl i'w agor ...